



**Eglwys y  
Santes  
Fair**

**y Gair  
y Groes  
y Gymraeg**

21<sup>ain</sup> o Chwefror 2021

## 11:00yb Gwasanaeth Unedig ar-lein

Ewch i'n gwefan a dewiswch *Eglwys Fair ar-lein*

## 5:00yh Hwyrrol Weddi ar Zoom gyda Mark yn arwain y myfyrdod

### Croeso i Eglwys y Santes Fair!

Cynhelir y gwasanaeth nesaf yn yr adeilad ddydd Sul 4<sup>fed</sup> o Ebrill am 9:45yb.

### Sul cyntaf y Garawys

Hollalluog Dduw,

yr ymrydiodd dy Fab Iesu Grist ddeugain diwrnod yn yr anialwch, a'i demtio fel ninnau, ond eto heb bechod, dyro inni ras i ddisgyblu ein hunain mewn ufudd-dod i'th Ysbryd;

a chan wybod am ein gwendid, bydded i ni felly adnabod dy allu achubol;

trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

**Amen.**

Mae ein newyddion diweddaraf ar ein gwefan, ac yn y newyddlen yma. Os ydych chi am rannu newyddion, stori, adnod, cysylltwch â ni!

### Gweddi Eglwys y Santes Fair

Arglwydd Iesu,


addewaist adeiladu dy eglwys.

Felly, os gweli di fod yn dda, adeilada dy eglwys yn ein plith.

Cymorth ni i ddyfnhau ein perthynas â thi, a chynydda'r nifer o

Gristnogion newydd sy'n addoli yma trwy gydol y flwyddyn, er mwyn dy anrhydedd yn y plwyf hwn. **Amen.**

[www.eglwysfair.cymru](http://www.eglwysfair.cymru)

 Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth

 @eglwysfair

**Gweinidog:** Parch. Mark Ansell, Fenton, Maes y Frenhines, Aberystwyth, SY23 2HL.  
01970 617184 [eglwysfair@gmail.com](mailto:eglwysfair@gmail.com) (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)

*Newyddion Teulu'r Eglwys*

### Gweddi am 8yb

Ymunwch â ni am 20 munud o weddi agored bob dydd o'r wythnos am 8yb. Cysylltwch â swyddfa@stmikes.net am y manylion Zoom neu am fwy o wybodaeth.

### Gwasanaethau yn yr adeilad

Bydd yr eglwys yn ailagor ar gyfer gwasanaethau wythnosol ar ddydd Sul y Pasg, 4<sup>ydd</sup> o Ebrill am 9:45yb. Ni fydd angen bwcio o flaen llaw.

### Astudio'r Beibl

Bydd y grŵp tŷ yn cwrdd nesaf nos Fercher 3ydd o Fawrth am 7:00yh am awr. Rydym yn astudio Nehemia. Croeso i bawb - Ymunwch â ni ar Zoom - Rhif 817 6232 7678, cyfrinair 536334.

### Pwyllgor yr Eglwys

Bydd pwyllgor yr eglwys yn cwrdd nos Fercher yma am 7:00yh.

### Gwasanaeth Gŵyl Dewi

Bydd gwasanaeth arbennig am 5:00yh nos Sul 28<sup>ain</sup> o Chwefror ar Zoom wrth i ni ddathlu Gŵyl Dewi yng nghwmni'r hanesydd Gerald Morgan.

### Cyfarfod blynyddol

Cynhelir ein cyfarfod blynyddol ddydd Sul 11<sup>eg</sup> o Ebrill ar ôl y gwasanaeth yn y bore.

### Gwasanaethau ar-lein

Cynhelir gwasanaeth unedig ar-lein bob bore dydd Sul am 11:00yb. Os ydych chi, neu'ch ffrind, am dderbyn copi o'r gwasanaeth ar DVD neu CD am ddim, rhowch wybod i ni.

Hefyd am 5yh bob nos Sul drwy raglen Zoom. Bydd angen rhif y cyfarfod – sef 964 3320 1895 – a'r cyfrinair, sef 1588. Gallwch ymuno drwy ffôn hefyd: Ffoniwch - 0203 051 2874 ac wedyn rhowch rhif y cyfarfod, wedyn yr allwedd #, wedyn 1588 wedyn # eto.

Yn Eglwys y Santes Fair...

rydym yn **creu cymuned** sy'n **caru'n cymdeithas** er mwyn **cyflwyno Crist.**



## Genesis 2: 15-17; 3: 1-7

<sup>15</sup>Dyma'r ARGLWYDD Dduw yn cymryd y dyn a'i osod yn yr ardd yn Eden, i'w thrin hi a gofalu amdani. <sup>16</sup>A dyma fe'n rhoi gorchymyn i'r dyn: "Cei fwyta ffrwyth unrhyw goeden yn yr ardd, <sup>17</sup>ond paid bwyta ffrwyth y goeden sy'n rhoi gwybodaeth am bopeth – da a drwg. Pan wnei di hynny byddi'n siŵr o farw."

### Y dyn a'i wraig yn pechu

<sup>1</sup>Roedd y neidr yn fwy cyfrwys na phob anifail gwyllt arall roedd yr ARGLWYDD Dduw wedi'u creu. A dyma'r neidr yn dweud wrth y wraig, "Ydy Duw wir wedi dweud, 'Peidiwch bwyta ffrwyth unrhyw goeden yn yr ardd?'" <sup>2</sup>"Na," meddai'r wraig, "dŷn ni'n cael bwyta ffrwyth unrhyw goeden yn yr ardd. <sup>3</sup>Dim ond am ffrwyth y goeden yng nghanol yr ardd y dwedodd Duw, 'Peidiwch bwyta ei ffrwyth hi a pheidiwch ei chyffwrdd hi, rhag i chi farw.'" <sup>4</sup>Ond dyma'r neidr yn dweud wrth y wraig, "Na! Fyddwch chi ddim yn marw. <sup>5</sup>Mae Duw yn gwybod y byddwch chi'n gweld popeth yn glir pan wnewch chi fwyta ohoni. Byddwch chi'n gwybod am bopeth – da a drwg – fel Duw ei hun."

<sup>6</sup>Gwelodd y wraig fod ffrwyth y goeden yn edrych yn dda i'w fwyta. Roedd cael ei gwneud yn ddoeth yn apelio ati, felly dyma hi'n cymryd peth o'i ffrwyth ac yn ei fwyta. Yna rhoddodd beth i'w gŵr oedd gyda hi, a dyma fe'n bwyta hefyd. <sup>7</sup>Yn sydyn roedden nhw'n gweld popeth yn glir, ac yn sylweddoli eu bod nhw'n noeth. Felly dyma nhw'n rhwymo dail coeden ffigys at ei gilydd a gwneud sgertiau iddyn nhw'u hunain.

## Salm 119: 17-32

<sup>17</sup>Bydd dda wrth dy was; gad imi fyw, ac fe gadwaf dy air.

<sup>18</sup>Agor fy llygaid imi weld rhyfeddodau dy gyfraith.

<sup>19</sup>Ymdeithydd wyf fi ar y ddaear; paid â chuddio dy orchmynion oddi wrthyf.

<sup>20</sup>Y mae fy nghalon yn dihoeni o hiraeth am dy farnau di bob amser.

<sup>21</sup>Fe geryddaist y trahaus, y rhai melltigidig sy'n gwyro oddi wrth dy orchmynion.

<sup>22</sup>Tyn ymaith oddi wrthyf eu gwaradwydd a'u sarhad, oherwydd bŵm ufudd i'th farnedigaethau.

<sup>23</sup>Er i dywysogion eistedd mewn cynllwyn yn f'erbyn, bydd dy was yn myfyrio ar dy ddeddfau;

<sup>24</sup>Y mae dy farnedigaethau'n hyfrydwch i mi, a hefyd yn gynghorwyr imi.

<sup>25</sup>Y mae fy enaid yn glynu wrth y llwch; adfywia fi yn ôl dy air.

<sup>26</sup>Adroddais am fy hynt ac atebaist fi; dysg i mi dy ddeddfau.

<sup>27</sup>Gwna imi ddeall ffordd dy ofynion, ac fe fyfyriaf ar dy ryfeddodau.

<sup>28</sup>Y mae fy enaid yn anniddig gan ofid, cryfha fi yn ôl dy air.

<sup>29</sup>Gosod ffordd twyll ymhell oddi wrthyf, a rho imi ras dy gyfraith.

<sup>30</sup>Dewisais ffordd ffyddlondeb, a gosod dy farnau o'm blaen.

<sup>31</sup>Glynais wrth dy farnedigaethau. O ARGLWYDD, paid â'm cywilyddio.

<sup>32</sup>Dilynaf ffordd dy orchmynion, oherwydd ehangaist fy neall.

## Rhufeiniaid 5: 12-19

### Adda a Christ

<sup>12</sup>Ein dadl yw hyn. Daeth pechod i'r byd trwy un dyn, a thrwy bechod farwolaeth, ac yn y modd hwn ymledodd marwolaeth i'r ddynolryw i gyd, yn gymaint ag i bawb bechu. <sup>13</sup>Y mae'n wir fod pechod yn y byd cyn bod y Gyfraith, ond yn niffyg cyfraith, nid yw pechod yn cael ei gyfrif. <sup>14</sup>Er hynny, teyrnasodd marwolaeth o Adda hyd Moses, hyd yn oed ar y rhai oedd heb bechu ar batrwm trosedd Adda; ac y mae Adda yn rhaglun o'r Dyn oedd i ddod.

<sup>15</sup>Ond nid yw'r weithred sy'n drosedd yn cyfateb yn hollol i'r weithred sy'n ras. Y mae'n wir i drosedd yr un ddwyn y llawer i farwolaeth; ond gymaint mwy sydd ar yr ochr arall: helaethrwydd gras Duw a'i rodd raslon i'r llawer, o'r un dyn, Iesu Grist. <sup>16</sup>Ac ni ellir cymharu canlyniad pechod un dyn â chanlyniad rhodd Duw. Ar y naill law, yn dilyn ar un weithred o drosedd, y mae dedfryd gyfreithiol sy'n collfarnu; ar y llaw arall, yn dilyn ar droseddau lawer, y mae gweithred o ras sy'n dyfarnu'n gyfiawn. <sup>17</sup>Y mae'n wir i farwolaeth, trwy drosedd yr un, deyrnasu trwy'r un hwnnw; ond gymaint mwy sydd ar yr ochr arall: pobl sy'n derbyn helaethrwydd gras Duw, a'i gyfiawnder yn rhodd, yn cael byw a theyrnasu trwy un dyn, Iesu Grist. <sup>18</sup>Dyma'r gymhariaeth gan hynny: fel y daeth collfarn ar y ddynolryw i gyd trwy un weithred o drosedd, felly hefyd y daeth cyfiawnhad sy'n esgor ar fywyd i'r ddynolryw i gyd trwy un weithred o gyfiawnder. <sup>19</sup>Fel y gwnaethpwyd y llawer yn bechaduriaid trwy anufudd-dod un dyn, felly hefyd y gwneir y llawer yn gyfiawn trwy ufudd-dod un dyn.